Independent Office for Police Conduct

# Frequently asked questions

## Post-decision questions about local resolution appeals

**Cwestiynau cyffredin**

Cwestiynau wedi penderfyniad ynghylch apeliadau datrysiad lleol

### 1. Mae fy apêl wedi ei chadarnhau gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) ac mae'r awdurdod priodol wedi cael cyfarwyddyd i gofnodi fy nghwyn neu i ddarparu penderfyniad cofnodi. Os na fyddaf yn clywed gan yr awdurdod priodol, a fydd yr IOPC yn cysylltu â nhw ar fy rhan?

Unwaith y byddwn wedi rhoi cyfarwyddyd i'r awdurdod priodol, mae ganddo 28 niwrnod i'ch darparu â phenderfyniad cofnodi neu hysbysiad fod eich cwyn wedi ei chofnodi. Byddwn yn cysylltu gyda'r awdurdod priodol i fonitro ei ymateb i'r cyfarwyddyd (neu gyfarwyddiadau) a ddarparwyd. Os na fyddwch yn clywed gan yr awdurdod priodol o fewn 28 diwrnod, rhaid i chi gysylltu â nhw'n uniongyrchol am ddiweddariad.

### 2. Beth mae cofnodi cwyn yn ei olygu?

Mae cofnodi cwyn yn golygu bod statws ffurfiol iddi dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Yna bydd rhaid iddi gael ei thrin yn ôl y rheolau a'r cyfarwyddyd ffurfiol.

### 3. Beth sy'n digwydd ar ôl i'm cwyn gael ei chofnodi?

Os bydd eich cwyn yn cael ei chofnodi, y cam nesaf yw i'r awdurdod priodol benderfynu beth yw'r ffordd orau i'w datrys. Mae gan yr awdurdod priodol nifer o opsiynau ar gael yn cynnwys ymchwiliad lleol, datrysiad lleol neu gallant ddatgymhwyso eich cwyn. (Mae datgymhwyso yn golygu atal y broses gwynion cyn i ymchwiliad gychwyn.)
Am ragor o wybodaeth, gweler gwefan yr IOPC: www.policeconduct.gov.uk/appeals

### 4. A allaf gyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y penderfyniad?

Na, ni allwch gyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y penderfyniad. Yr amser pan wnaethoch chi eich apêl oedd eich cyfle i'n darparu â'r holl wybodaeth ofynnol i'w ystyried.

Gweler trosodd

## 5. Beth sy'n digwydd os na fyddaf yn cytuno â phenderfyniad yr IOPC?

Nid oes hawl i apêl yn erbyn ein penderfyniad. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu fod arnoch angen rhagor o wybodaeth am ein penderfyniad apêl, cysylltwch â ni fel ein bod yn medru esbonio'r rhesymau am y penderfyniad ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Dylech gael gwybod bod penderfyniadau apêl yr IOPC yn derfynol. Mae hyn yn golygu mai dim ond y llysoedd, drwy'r broses adolygiad barnwrol, all wyrdroi unrhyw benderfyniad a wnawn a'i gyfathrebu i'r partïon dan sylw. Dylech geisio eich cyngor cyfreithiol annibynnol eich hun os bwriadwch symud ymlaen fel hyn.

## 6. Beth os nad wyf yn fodlon â'r gwasanaeth a dderbyniais?

Os nad ydych yn fodlon ar y gwasanaeth yr ydych wedi ei dderbyn gennym, neu os ydych eisiau mynegi anfodlonrwydd, gallwch gyflwyno eich cwyn i Uned Ymchwiliadau Mewnol yr IOPC. Bydd aelod o staff yn ymateb i'ch cwyn yn ôl hynny. Nid yw'n rhan o'i rôl i ddelio â'ch pryderon ynghylch y penderfyniad (oherwydd mae'r penderfyniad yn derfynol), ond yn hytrach i edrych ar y gwasanaeth a dderbynioch gan ein staff. Gallwch gysylltu ag Uned Ymchwiliadau Mewnol yr IOPC trwy anfon e-bost at: iiu@policeconduct.gov.uk